# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 22 Mai 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Perthynas Rhwng Gweinyddiaeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU

**C13 William Graham:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y berthynas rhwng gweinyddiaeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU? (OAQ11531)

**Prif Weinidog Cymru:** Mae gan fy nghyd-Aelodau yn y weinyddiaeth a minnau berthynas gynhyrchiol â'n cymheiriaid yn Llundain, a disgwyliwn iddi barhau.

### Effaith y Cynulliad ar Gymru

**C14 Peter Black:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar effaith y Cynulliad ar Gymru ar ôl ei ddwy flynedd gyntaf? (OAQ11520)

**Prif Weinidog Cymru:** Ers sefydlu'r Cynulliad ym Mai 1999, yr ydym wedi llwyddo i gyflawni llawer. Heb waith y weinyddiaeth hon, ni fyddai pobl Cymru wedi gweld:

- Comisiynydd Plant Cymru;
- llaeth mewn ysgolion yn rhad ac am ddim i blant dan saith oed;
- mynediad am ddim i wyth safle Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru;
- presgripsiynau am ddim i bobl dan 25 oed, a thaliadau presgripsiynau pawb heb eu cynyddu;
- gwiriadau deintyddol am ddim i bobl dan 25 oed a thros eu 60; na
- phasiau bysiau am ddim.

### Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru

**C15 Kirsty Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael yn ddiweddar gyda Changhellor y Trysorlys o safbwynt darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ11525)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid wyf wedi trafod yn ffurfiol â Changhellor y Trysorlys ers imi groesawu'r £100 miliwn ychwanegol a ychwanegwyd at gyllideb y Cynulliad yng nghyllideb y Canghellor fis Mawrth, ac a fydd yn hwb i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

### Mesurau sydd ar y Gweill gan Lywodraeth y DU

**C16 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y sgôp sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddylanwadu ar Fesurau sydd ar y gweill gan Lywodraeth y DU? (OAQ11526) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Cynllun Datblygu Cynaliadwy

**C17 Helen Mary Jones:** Pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd er mwyn sicrhau bod y cynllun datblygu cynaliadwy yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer yr holl ddatblygu polisïau o fewn y Cynulliad? (OAQ11535) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cydlynu Polisi’r Llywodraeth**

**C18 Ann Jones:** Pa drafodaethau diweddar a gafodd Prif Weinidog Cymru gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cydlynu polisi’r Llywodraeth rhwng Cymru a gweddill y DU? (OAQ11539)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod pob mater o bwys a wnelo â Chymru a’r DU. Mae fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet yn cyfarfod â’u cymheiriaid yn San Steffan drwy gydol y flwyddyn.

**Adroddiad Cynnydd ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogol**

**C19 Richard Edwards:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru roi adroddiad cynnydd ar y Cyd-bwyllgor Gweinidogol? (OAQ11523) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Gosod Materion Trawsbynciol drwy holl Bolisïau’r Cynulliad**

**C20 Gareth Jones:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydlynydd datblygu polisïau, sut y mae Prif Weinidog Cymru yn asesu llwyddiant Llywodraeth Cymru wrth osod materion trawsbynciol drwy holl bolisïau’r Cynulliad a’r cyrff a noddir ganddo? (OAQ11536)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodaf â’m cyd-Aelodau yn y Cabinet yn rheolaidd, a hwy sydd â’r cyfrifoldeb arweiniol am ein tair thema drawsbynciol yn y Cynulliad. Yr ydym yn mynd i’r afael â’r themâu trawsbynciol hynny drwy gynlluniau’r Cynulliad ac yn cynorthwyo cynlluniau gweithredu a mesurau priodol eraill, gan ddarparu arian.

Disgwyliaf i gyrff a noddir gan y Cynulliad gadw’r themâu a’r anghenion hynny mewn cof yn eu holl waith.

**Lleihau'r Llysoedd Sir yng Nghymru**

**C21 Alison Halford:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi’u cael gyda Llywodraeth y DU am leihau’r llysoedd sir yng Nghymru? (OAQ11518) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Adroddiad Perfformiad y Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000**

**C22 David Lloyd:** A gyflwynir unrhyw fesurau newydd yn dilyn casgliadau ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru Adroddiad Perfformiad 1999-2000’? (OAQ11533) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cymorth Cymdeithasol ac Economaidd i Gymunedau**

**C23 Janet Ryder:** Yn ei rôl fel cydlynydd datblygu polisïau, pa gamau y gall Prif Weinidog Cymru eu cymryd er mwyn sicrhau bod y cymunedau y mae angen y cymorth cymdeithasol ac economaidd fwyaf arnynt yn ei dderbyn? (OAQ11534) ***Tynnwyd yn ôl.***